

Oriel Davies Gallery Disgrifiad Rôl a Manyleb Person

Rydym yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd i ymuno â Bwrdd Oriel Davies yn 2022 i helpu i lunio dyfodol yr oriel.

Hoffem glywed gan unigolion o gefndiroedd amrywiol sydd â diddordebau, sgiliau a mewnwediadau sy'n berthnasol i'n gwaith. Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol arnoch i fod yn ymddiriedolwr, ond rhaid i chi fod yn ymroddedig i werthoedd Oriel Davies Gallery, gan gynnwys:

1. Mynediad cyfartal a hael i gelfyddyd a diwylliant
2. Gweithio gydag artistiaid, dylunwyr, gwneuthurwyr a phobl greadigol eraill er budd ein cymuned a'r amgylchedd
3. Datgloi talent gudd a hyrwyddo amrywiaeth greadigol

Mae gennym ddiddordeb mewn potensial ac rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, ifanc, anabl, LGBTQI+.

Mae Oriel Davies Gallery hefyd wedi ymrwmo i hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg, a'n nod yw cryfhau sgiliau Cymraeg ein Ymddiriedolwyr. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Rydym hefyd yn chwilio am ymddiriedolwyr sydd â phrofiad/sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Ymarfer creadigol, gan gynnwys celf, dylunio, crefft, ffilm, digidol
- Cyfathrebu, gan gynnwys cysylltiadau â'r cyfryngau, marchnata, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus

Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr

Fel ymddiriedolwr byddwch yn rhannu ein hymrwymiad i greu cyfleoedd i bawb ymgysylltu â chelfyddydau gweledol cyfoes, i alluogi artistiaid a gwneuthurwyr amrywiol i wireddu eu potensial, ac i hyrwyddo rôl diwylliant wrth adeiladu cymunedau gwydn a chynhwysol.

Mae Ymddiriedolwyr yn mynychu pedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn. Mae tri chyfarfod Bwrdd y flwyddyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd trwy fideo-gynadledda ac yn cael eu cynnal yn gynnar gyda'r nos. Mae'r pedwerydd

cyfarfod yn gyfarfod ar y safle yn ystod y dydd yn Oriel Davies, yn ystod oriau agor cyhoeddus.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion ledled Cymru a'r DU. Gall y rôl hefyd gynnwys mynychu digwyddiadau yn yr oriel a chyfarfodydd/digwyddiadau eraill, lle bo'n briodol. Bydd angen rhywfaint o amser ychwanegol i adolygu papurau a darparu cyngor ad hoc yn ôl yr angen.

Teitl Swydd:	Ymddiriedolwr
Yn adrodd i:	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Yn atebol i:	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Yn gyfrifol am:	Y Cyfarwyddwr
Graddfa gyflog:	Mae hon yn rôl ddi-dâl. Bydd Oriel Davies Gallery yn ad-dalu costau teithio rhesymol i gyfarfodydd.

Dyletswyddau

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr: Rôl a Chyfrifoldebau

Rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yw:

- Pennu polisi a phennu cyfeiriad strategol cyffredinol rhaglen yr oriel, yn unol â'r dibenion y cytunwyd arnynt
- Goruchwylio darpariaeth y rhaglen trwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau
- Sicrhau gweinyddiad effeithiol ac effeithlon o'r oriel
- Lle bo'n briodol, cynrychioli Oriel Davies yn allanol
- Defnyddio arbenigedd cyfunol yr Ymddiriedolwyr i gynghori a chefnogi Cyfarwyddwr yr oriel a thîm y staff

Rhaid i Ymddiriedolwyr Oriel Davies:

- Bod yn ymroddedig i amcanion a gwerthoedd yr oriel, a deall sut y gellir eu gwireddu yn ymarferol.

- Cymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd, gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd ymddiriedolwyr chwarterol, a bod yn bresennol ynddynt.
- Bod yn barod ac yn gallu gweithio gyda Chyfarwyddwr a staff yr oriel i hwyluso cyfnewid cyngor am ddim.
- Bod yn barod i ddatgan a rheoli'n weithredol unrhyw fater sy'n codi y mae gan yr Ymddiriedolwr fuddiant ynddo a allai wrthdaro â rhai Oriel Davies Gallery.

Mae'r gyfraith yn gosod rhai cyfyngiadau ar ddod yn Ymddiriedolwr elusen. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Adran 3.1 o Ganllawiau Hanfodol Ymddiriedolwyr y Comisiwn Elusennau.

Mae'n ofynnol i bob Ymddiriedolwr elusen ddeall a chroesawu saith egwyddor bywyd cyhoeddus fel y'u diffinnir gan Bwyllgor Nolan: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth

Cyfathrebu

- Sicrhau bod Oriel Davies yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol a chadarnhaol
- Cynrychioli diddordebau'r Oriel yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd newydd.
- Cyfrannu at statws, proffil a hyrwyddiad y celfyddydau gweledol yn lleol, yn genedlaethol a lle bo'n briodol, yn rhyngwladol

Camau nesaf

Gallwch ddarganfod mwy am Ymddiriedolwyr presennol Oriel Davies [yma](#)

Os hoffech gael eich ystyried yn Ymddiriedolwr, dywedwch fwy wrthym andanoch eich hun ac anfonwch ddisgrifiad byr o'ch diddordeb yn Oriel Davies Gallery. Gallwch gysylltu â ni [yma](#).

Byddwn yn ymateb i bob datganiad o ddiddordeb o fewn 3 wythnos, ac efallai y cewch eich gwahodd i gyfweiliad anffurfiol gyda'n Cyd-Gadeiryddion y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr.